

# Cyf: Archwiliad Gwastraff

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Mae dosbarth eich mab/merch wedi bod yn cynnal archwiliad gwastraff. Nod y prosiect hwn yw addysgu plant i fyw yn gynaliadwy ac yn economaidd ac i helpu ein hysgol leihau gwastraff. Fel rhan o'r prosiect, bydd angen i'r dosbarth gasglu a mesur gwastraff o'r ysgol gyfan. Wedyn, bydd y dosbarth yn mynd ati i ddadansoddi'r canlyniadau a chreu Cynllun Gweithredu i annog lleihau, aildddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yn ein hysgol.

Hoffem eich sicrhau, er y bydd eich plentyn yn trin gwastraff ysgol yn ystod cymalau casglu, didoli a phwyso'r gweithgaredd hwn, byddwn yn cymryd pob rhagofal i sicrhau bod y gweithgaredd yn ddiogel. Byddwn yn canolbwyntio ar hylendid a byddwn yn sicrhau fod pob ymdrech i sicrhau nad yw'r gweithgaredd yn niweidiol i iechyd eich plentyn mewn unrhyw ffordd. Bydd pob disgybl sydd yn cymryd rhan yn cael menig ac oferôls ac yn cael eu briffio ar iechyd

a diogelwch i atgyfnerthu'r rheolau hyn cyn iddynt ddechrau'r gweithgaredd. Bydd pob bin sydd yn debygol o gynnwys gwastraff peryglus yn cael ei eithrio o'r archwiliad.

Bydd lefel uchel o oruchwyliaeth drwy gydol y gweithgaredd. Fodd bynnag, os hoffech chi ein helpu i fynd i'r afael â'r gwastraff ar y diwrnod, mae croeso i chi ymuno â'r hwyl a byddem yn gwerthfawrogi'ch cyfranogiad!

Os hoffech chi godi unrhyw bryderon am gyfranogiad eich plentyn yn y gweithgaredd hwn, neu os hoffech wirfoddoli, cysylltwch â'r athro dosbarth, os gwelwch yn dda.

Yn gywir,



**ailgylchu** dros Gyrmu  
**recycle** for Wales

